| **Teitl Swydd :**<br>Rheolwr Cynlluniau Cymunedol (Môn) | **Lleoliad:**<br>Llangefni / Hybrid | |
|---|---|---|
| **Yn atebol i :**<br>Cyfarwyddwr Cynlluniau Menter Môn | **Yn gyfrifol am:**<br>Staff a chyllid | **Amrediad Cyflog :**<br>£38,843 - £48,175 |

**Prif ddiben y Swydd:**
Gweithredu dyletswyddau rheolwr llinell uniongyrchol i staff a rhoi arweiniad i ddarparu prosiectau yn y maes ieithyddol a chymunedol drwy amrywiol ffynonellau ariannu, bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at y nod o sicrhau fod Ynys Môn yn parhau yn gadarnle i'r Gymraeg.

| **Cyfrifoldebau;** | **Sgiliau / Profiad** |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau:**<br><br>• Llunio, gweithredu a monitro dogfennau strategol, yn cynnwys Cynllun Corfforaethol, Cynllun Gweithredu (a chynlluniau gwaith), ac unrhyw ddogfennau eraill ar gyfer cyllidwyr a chefnogwyr.<br><br>• Sicrhau fod gwaith y tîm yn cyd-fynd â strategaethau'r Llywodraeth, a'i bod yn cyfrannu at ac yn dylanwadu ar y nodau ac amcanion ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>• Cymryd cyfrifoldeb llawn dros y Fenter Iaith a sicrhau cyswllt gyda holl gynlluniau cymunedol perthnasol, a sicrhau perthynas dda gyda rhwydwaith cenedlaethol y Mentrau.<br><br>• Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, partneriaid hybu'r Gymraeg, ysgolion, Colegau a chyrff eraill i adnabod cyfleoedd cydweithio cyson, ac ymestyn cyrhaeddiad ac effaith y gwaith.<br><br>• Adrodd yn ôl i arianwyr ar gynnydd a chyflawniadau yn rheolaidd ac i safon uchel.<br><br>• Clustnodi adnoddau i weithredu cynlluniau, a chyfrifoldeb am ddenu cyllid i ddatblygu ac ehangu ar waith y tîm yn barhaus. | **Hanfodol:**<br><br>• Gallu cynllunio yn strategol<br>• Y gallu i arwain ac ysbrydoli cydweithwyr<br>• Profiad o reoli pobl / tîm.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu o'r radd flaenaf yn cynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag amrediad eang o gynulleidfaoedd<br>• Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn sefyllfaoedd amrywiol gan gynnwys rhai heriol<br>• Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg â'r Saesneg<br>• Profiad o weithio mewn modd sensitif, cadarnhaol a chynhwysol<br>• Profiad o gydlynu a chynnal gweithgareddau<br>• Profiad o weithio gyda'r gymuned ac mewn partneriaeth a mudiadau eraill<br>• Y gallu i gynllunio ac arwain tîm<br>• Profiad o weithio mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: Y Gymraeg, y celfyddydau, maes digidol, datblygiad economaidd, datblygiad cymunedol.<br>• Profiad o wireddu cynlluniau o ffynonellau nawdd amrywiol (Loteri / Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol) |

| | |
|---|---|
| •Cyfrifoldeb a goruchwyliaeth ar reolaeth ariannol prosiectau cymunedol amrywiol, gan adnabod risgiau, a sicrhau fod defnydd gorau yn cael ei wneud o'r arian.<br><br>•Cynnal perthynas weithredol effeithiol gyda phartneriaid allweddol, yn arianwyr a phartneriaid ymarferol – a gweithredu'n rhagweithiol i greu partneriaethau newydd.<br><br>•Sicrhau fod cyfleoedd i staff ddatblygu, a chael hyfforddiant perthnasol i'w swydd.<br><br>•Sicrhau bod proffil cyhoeddus uchel a chadarnhaol i waith y tîm.<br><br>•Cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch staff, aelodau a gwirfoddolwyr gan sicrhau fod systemau'r cwmni yn cael eu dilyn i ddiogelu pawb.<br><br>**Cynrychioli'r Cwmni:**<br>Bydd deilydd y swydd yn gynrychiolydd balch o gwmni Menter Môn ac yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau enw da i'r Cwmni. | **Dymunol:**<br>• Profiad o lunio ceisiadau grant/nawdd<br><br>**Cymwysterau**<br><br>**Hanfodol:**<br>• Profiad o weithio yn y maes rheoli cynlluniau cymunedol / ieithyddol<br><br>**Dymunol:**<br>• Cymhwyster lefel gradd mewn pwnc perthnasol<br>• Cymhwyster rheolaeth<br><br>**Arall**<br><br>**Hanfodol:**<br>• Trwydded yrru gyfredol / y gallu i deithio yn ôl y gofyn<br>• Y gallu i gyfathrebu yn hyderus trwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br>• Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd |
| | **Nodweddion Personol** |
| | **Hanfodol:**<br>• Sgiliau rhyngbersonol dda<br>• Cyfrifol<br>• Trefnus<br>• Hyblyg<br>• Dwyn perswâd, dylanwadu ac ysbrydoli eraill<br>• Brwdfrydedd a chymhelliant<br>• Sensitif<br>• Hyderus |